5.99

# Can Newydd,

YN RHODDI HANES GALARUS AM

## *Fwrddriad Gwraig Fonheddig,*

O Dref Warwick,

YR HON A DDIHENYDDIWYD GAN UN O'I MORWYNION,

*Sef, ANNE BURTON,*

Ar y 4 dydd o fis Chwefror diweddaf.

Cenir ar "Bryniau'r Iwerddon."

1825

---

I.

HOLL wyr a gwragedd Cymru, o'r de i'r dwyrain dir,
A chwithau'r glân ie'ngctyd, cewch glywed gen'i'r gwir.
Mae gormod yn ein gwledydd o'r beunydd yma'n byw,
Yn gwrando llais y gelyn, gan bechu a digio Duw.

II.

Chwi wyddoch fel bu Cymru dan bob rhyw ran o'r tir,
Yn dilyn pob oferedd i gyd gan wadu'r gwir ; [wrth son,
Ryn modd 'roedd gwlad y saeson, 'rw'yn synnu nawr,
Am bechu yn erbyn Duwdod, a gwrthod gwaed yr Oen.

X 20521059 6

III.

Yn Warwickshire, ysywaeth, mawr syndod i ni sydd,
'Roedd merch yn gwrando Satan, oer gynan yn ddigudd;
Hon ydoedd morwyn gyflog modd bywiog a diball,
Dda ei synwyr mewn gwasanaeth, un gynes eneth gall.

IV.

Rhyw ddiwrnod, aeth ei mheistr a'i ferched gydâg e',
Y'nghyd a'i holl forwynion da union dan y ne',
I maes o'r dref i rodio, a'i weision bob yr un,
Ac Anne gadawyd gartre' a'i meistres yn gytun.

V.

Pan oedd y glân bendefig ar daith y'mhell o'i dŷ,
Fe ddarfu'r forwyn fwrdro ei meistres gynnes gu,
A'i meddwl oedd lledratta heb drai o'r trysor drud,
Oedd yno yn cael ei gadw o dan y cloeon clud.

VI.

Yr oedd ei mheistres hawddgar yn darllen gair ein Duw,
Sydd reol i ni fyned i mewn i'r nefoedd wiw,
Yn eistedd yn ei chadair yn dyner yn y tŷ,
Heb feddwl fod y forwyn yn gwrando'r gelyn dû.

VII.

A'r forwyn ddrwg o fwriad, mae'n galed gweud y gwall,
Dderbyniodd ryw demtasiwn, y filen, gan y fall;
A darn o bren gwnai daro ei meistres ffraethedd ffri,
Nes oedd hi'n gwaeddi'n drymllyd, 'Fy mywyd gad i mi!'

VIII.

A'i mheistres godai i fynu, i'r llofft hi redai'n glau,
Gorweddodd ar y gwely heb wybod beth a wnai;
A'r forwyn aeth mewn dichell a'r gyllell yn ei llaw,
A thorrodd wddf ei meistres oedd yno yn druan draw.

IX.

I olchi'r gwaed yr ae'r forwyn heb ronyn iddi o ras,
Drwg medd yr hen ddiarheb y cadw'r diawl ei was;
A'i meistr a ddaeth adre', fe a'i daliodd ar ei gwaith,
Brawychodd yn ei galon gan hyn mewn moddion maith.

X.

Gofynnodd iddi yn union, B'le mae dy feistres lon,
Ac Anne attebodd iddo heb brudd-der dan ei bron,
Gan ddweud yn wyneb uchel, Nid af i wadu'r gwir,
Myfi fy hun, derfynais, mewn bar ei bywyd pur.

XI.

A rhoddwyd Anne yn union yn sound yn jail y sir,
I aros hyd y sizes, i gael ei barnu yn bur
O flaen y judge a'r jury, a phawb yn wael eu gwawr,
Fe'i barnwyd i'w throsglwyddo i'r trag'wyddoldeb mawr.

XII.

Y dydd 'roedd hi yn dioddef mewn prudd-der ar y pren,
'Roedd tyrfa yn edrych arni rhwng dae'r a nefoedd wen.
Hi dd'wedai a'i llef yn uchel, holl ie'ngctyd hardd eu lliw,
O rhodiwch ffordd yr Arglwydd i gyd gan garu Duw.

XIII.

Hi ddywedodd, Dadau a Mammau, edrychwch oll bob awr,
Am fod eich plant yn ffyddlon yn ffordd y Brenin mawr
I gadw'r ffordd yn gyson at Frenin Sion sydd
Yn galw pechaduriaid didoriad rai bob dydd.

XIV.

O dewch y ie'ngctyd manol, rhai mwynion yn mhob man,
Gweddiwch tra bo'r amser am ras i'r enaid gwan,
Heb ddewis y crog-brennau sydd ffordd i uffern dân,
Ond trio trwy drugaredd am lwydd i fyn'd ymlaen.

XV.

I rhodio ffordd yr Arglwydd, trigolion daear dewch,
Am sail y mynydd Sion o swn y byd nesewch;
'Mofynnwn Crist yn briod cyn delo dial den,
A hynny wrth ymado 'rwy'n dymuno—Amen.

*Richard Williams, a'i cânt.*

---

James, Argraphydd, Merthyr Tydfil.